# Her defnyddio arian

Family Maths Toolkit

**Casglwch eitemau i'w gwerthu. Gallech wneud siop deganau, archfarchnad neu hyd yn oed siop esgidiau. Yna bydd angen i chi wneud tocynnau prisiau.**

Lluniwch labeli prisiau hyd at 20c. 'Nawr bydd arnoch angen arian i brynu'r eitemau. Defnyddiwch 1c, 2c, 5c, 10c ac 20c yn unig.



Penderfynwch pwy fydd perchennog y siop a phwy fydd y siopwr (gallwch gyfnewid rolau).

Mwynhewch siopa ac yna lluniwch hysbyseb ar gyfer eich siop i ddangos beth sydd gennych ar werth a'r prisiau.

Beth yw'r peth drutaf sydd ar werth?
A oes gennych unrhyw gynigion arbennig?



**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Adnabod darnau arian a gwybod beth yw eu gwerth.



Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

# Ar y ffordd i'r ysgol

Family Maths Toolkit

**Ar eich ffordd i'r ysgol, chwiliwch o'ch cwmpas am siapiau – tybed a allwch weld unrhyw gylchoedd, petryalau neu drionglau? Edrychwch ar dai, ceir, teganau ac unrhyw beth arall y gallwch ddod o hyd iddo.**




**Os edrychwch chi'n ofalus ar bethau, a allwch weld unrhyw siapiau 3D megis sfferau, ciwboidau, silindrau neu byramidiau?**



Dewiswch eich hoff bethau i dynnu eu lluniau a dangoswch y siapiau.

**Awgrym defnyddiol:** Trafodwch pam y mae gan bethau siâp penodol – a yw'n ddefnyddiol neu'n addurn?



**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Adnabod ac enwi siapiau 2D a 3D cyffredin, gan eu cysylltu â gwrthrychau bob dydd mewn cyfeiriadedd a meintiau gwahanol.

**nationalnumeracy.org.uk**


National Numeracy Getting on with numbers

Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

# Rhannu picnic

Family Maths Toolkit

**Meddyliwch am bicnic y bydd dau blentyn yn ei rannu rhyngddynt yn gyfartal – beth a fydd gan bob un ohonynt?**



**Sut y gallem rannu'r pizza mewn modd teg? Beth am bowlen o domatos?**

**Clwstwr o rawnwin? Un afal? Cacen?**



Beth a fyddai gennych yn eich picnic y gallech ei rannu â ffrind? Tynnwch lun a dangoswch sut y gellid ei rannu.



**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Adnabod, canfod ac enwi hanner fel un o ddwy ran gyfartal; sylweddoli bod dau chwarter yr un peth â hanner.

**nationalnumeracy.org.uk**

National Numeracy
Getting on with numbers

Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669